# TEITHIO YMLAEN -
# Uwch Ymarferydd Gwasanaeth Cyngor ac Eiriolaeth

Mae TGP Cymru yn un o'r elusennau blaenllaw yng Nghymru, sy'n cefnogi ac yn cynrychioli plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n agored i niwed drwy amrywiaeth o brosiectau, hyfforddiant ac ymgyrchu. Mae gwasanaethau TGP Cymru yn cael eu hariannu gan sawl cyllidwr ac yn darparu gwasanaethau ledled Cymru.

**Adran TGP Cymru:** Gwasanaethau i Deuluoedd

**Yn atebol i:** Rheolwr Tîm Teithio Ymlaen

**Lleoliad: Cartref -** Gweithio Hybrid ar draws Cymru

**Pwrpas y rôl:**
Mae'r prosiect Teithio Ymlaen yn darparu gwasanaeth eiriolaeth sy'n gweithio gyda chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ledled Cymru (plant, pobl ifanc ac oedolion) sy'n cefnogi mynediad at hawlogaethau a hawliau, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a gwahaniaethu.

Mae'r tîm Teithio Ymlaen wedi'u lleoli gartref gyda chymysgedd o weithio rhithwir ac wyneb yn wyneb. Rydym hefyd yn cynnal gwasanaeth cynghori i deuluoedd Roma yr UE ledled Cymru i wneud cais am statws preswylydd sefydlog yn y DU, prosiect cefnogi gofalwyr a phrosiectau eiriolaeth cymunedol.

Bydd Uwch Ymarferydd y Gwasanaeth Cyngor ac Eiriolaeth yn cymryd y cyfrifoldeb arweiniol am ddatblygu, darparu a chydlynu'r gwasanaeth Cyngor ac Eiriolaeth ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion Sipsiwn Roma a Theithwyr o ddydd i ddydd ledled Cymru.

**Atebolrwydd / Cyfrifoldebau**

- Sicrhau cydlynu a datblygu'r gwasanaeth o ddydd i ddydd ledled Cymru; Gweithio'n agos gyda rheolwr llinell i nodi cyfleoedd, datblygu cynlluniau a monitro a gwerthuso meysydd ar gyfer perfformiad ac ansawdd
- Recriwtio, sefydlu, hyfforddi, goruchwylio / arfarnu a rheoli tîm staff Cyngor ac Eiriolaeth yn unol â pholisïau TGP Cymru a gofynion cyfreithiol gan gynnwys Gweithdrefnau Diogelu yn ogystal â chanllawiau cysylltiedig eraill a strategaethau corfforaethol
- Arwain a darparu elfennau o'r gwasanaeth yn ôl yr angen
- Datblygu cynllun gwaith ar gyfer y gwasanaeth gan alluogi asesiad o'r gwasanaeth yn erbyn amcanion
- Monitro ansawdd y gwasanaeth yn erbyn dangosyddion a safonau perfformiad y cytunwyd arnynt a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol lle mae'r perfformiad islaw'r dangosyddion a safonau y cytunwyd arnynt
- Rheoli cyllideb gwasanaeth o ddydd i ddydd a chyfrannu at bennu cyllideb
- Ymchwilio i gwynion lefel gwasanaeth a rheoli achosion disgyblu a chwynion lefel gwasanaeth
- Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ac arfer gwrthwahaniaethol drwy'r gwaith a wneir yn

y swydd

- Sicrhau bod unrhyw bryderon diogelu yn cael eu trin yn briodol o fewn y gwasanaeth
- Codi ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a brwdfrydedd dros waith y Gwasanaeth, ymhlith y gymuned Sipsi, Roma a Theithwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol.
- Cysylltu a thrafod gyda gweithwyr proffesiynol/sefydliadau perthnasol i sicrhau bod rolau, cyfrifoldebau, disgwyliadau a chyfraniadau yn cael eu trefnu, eu deall a'u gweithredu'n glir.
- Cynorthwyo'r Rheolwr Tîm i asesu allbynnau'r Gwasanaeth yn erbyn fframwaith y canlyniadau y cytunwyd arnynt drwy fonitro gweithgarwch a chasglu gwybodaeth briodol, gan gynnwys adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth.
- Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau TGP Cymru i gynnwys cyllid, adrodd, rheoli data a diogelu
- Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ac arfer gwrthwahaniaethol drwy'r gwaith a wneir yn y swydd
- Ymgymryd â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau eraill hynny sy'n ofynnol yn rhesymol gan y sefydliad ac sy'n gyson â'r radd.

**Dangosyddion Perfformiad**

- Yn gyfrifol am ddarparu dangosyddion perfformiad allweddol a safonau ymarfer.
- Ansawdd gwasanaeth a chydymffurfiaeth yn erbyn safonau a gofynion statudol, rheoleiddiol, sefydliadol ac arfer gorau.
- Cyflawni amcanion a thargedau gwasanaeth ac amcanion unigol.

**Cyfrifoldeb rheoli llinell (ar 01/09/24)):**
3 Gweithiwr Cynghori ac Eiriolaeth rhan-amser

**Cyfrifoldeb rheoli'r gyllideb (ar 01/09/24)):**
£ I'w gadarnhau

**Gradd:**
MS7

**Amodau gwaith:**
24 awr yr wythnos gydag ymagwedd hyblyg tuag at yr wythnos waith a allai gynnwys rhywfaint o weithio ar benwythnosau a gyda'r nos ac aros oddi cartref dros nos i fynychu cyfarfodydd, cynadleddau neu hyfforddiant.

Mae angen teithio i wahanol leoliadau ledled Cymru a'r DU hefyd.

**Cymwysterau**

- Cymhwyster Eiriolaeth Annibynnol (neu barodrwydd i weithio tuag at un)
- Cymhwyster rheoli (Dymunol)
- Cymhwyster proffesiynol mewn gwaith cymdeithasol, gwaith ieuenctid a chymuned neu ddisgyblaeth gysylltiedig fel Iechyd ac Addysg (dymunol)

**Sgiliau a galluoedd / cymwyseddau**

Bydd deiliad y swydd yn gallu:

- Cynhyrchu canlyniadau o ansawdd mewn modd sy'n canolbwyntio ar wasanaeth ac ar amser, ac wedi ymrwymo i gyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt
- Gweithio'n dda gyda chydweithwyr a phartneriaid a chydnabod gwahanol syniadau, safbwyntiau a chefndiroedd eraill
- Cynllunio a threfnu gwaith a rheoli amser yn effeithiol
- Cyfathrebu'n effeithiol h.y. mynegi gwybodaeth a syniadau mewn modd clir, cryno a chywir; yn gwrando'n weithredol ac yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu.
- Bod yn agored i ddulliau a syniadau newydd, ymateb yn gadarnhaol i newid ac addasu'n gyflym i sefyllfaoedd newydd
- Chwilio am gyfleoedd ar gyfer dysgu parhaus a thwf proffesiynol

**Gwybodaeth / Profiad**

Bydd deiliad y swydd yn gallu dangos dealltwriaeth gadarn a /neu gofnod o gyflawniad yn y canlynol:

- Gweithio gyda phlant/pobl ifanc ac oedolion mewn sefyllfaoedd cymhleth gan gynnwys diogelu
- Gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion Sipsiwn, Roma a Theithwyr (dymunol)
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion sy'n effeithio ar gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o eiriolaeth a'r gwahaniaeth rhwng eiriolaeth a chyngor
- Rhoi gwybodaeth / cyngor mewn capasiti broffesiynol
- Arwain / rheoli tîm (dymunol)
- Datblygu Prosiect / Gwasanaeth
- Rheoli adnoddau
- Rheoli perfformiad

**Arall**

- Arddangos gwerthoedd ac ymddygiadau TGP Cymru bob amser a'u hyrwyddo'n weithredol mewn eraill
- Ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth
- Trwydded yrru lawn a gyda mynediad i drafnidiaeth (Mewn rhai amgylchiadau, gellir ystyried ymgeiswyr nad ydynt yn gallu gyrru o ganlyniad i anabledd.)
- Y gallu i siarad Cymraeg (dymunol)